

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Crescent Dental, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 25 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Crescent Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 25 Mehefin 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd wyth gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal a bod y cleifion yn cael gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. Roedd systemau cyfathrebu effeithiol yn galluogi'r cleifion i gyfathrebu â'r clinigwyr mewn ffordd a oedd yn addas iddynt. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn y practis.

Roedd y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn yn sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin yn deg, ac roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion gael eu cofnodi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael gofal priodol
- Gellid gwneud mwy i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith yn llawn ar gyfer cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y dogfennau hybu iechyd ar gyfer y cleifion yn glir ac yn llawn gwybodaeth
- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol
- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd yn ymddangos ei fod mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch a rhagofalon tân y practis yn briodol, gan sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel mewn lleoliad diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd y gweithdrefnau a'r cyfarpar ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol yn y practis yn cael eu rheoli'n gywir er mwyn helpu i gadw'r cleifion yn ddiogel. Gwelsom fod yr holl becynnau cymorth cyntaf yn gyfredol a bod y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau

hyfforddiant ar adfywio cardiopwlmonaidd a hyfforddiant ar ddefnyddio ocsigen yn ddiogel.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da a bod y gweithdrefnau i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n briodol yn ystafell ddihalogi'r practis yn gadarn. Gwelsom ddau ddarn o gyfarpar mewn un ddeintyddfa nad oedd modd eu dihalogi'n effeithiol, ond cafodd y materion hyn eu datrys gan y practis ar unwaith yn dilyn yr arolygiad. At hynny, nid oedd protocolau ysgrifenedig ar gyfer cynnal archwiliadau pelydr-X safonol ar gael yn hawdd i'r staff yn y deintyddfeydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau ysgrifenedig ar gyfer cynnal archwiliadau pelydr-X safonol ar gael yn hawdd i'r staff yn y deintyddfeydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd yr holl adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol, ac roeddent yn falch o weithio yn y lleoliad. Roedd strwythurau rheoli clir yn helpu i gefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol, gan alluogi'r staff i ddarparu'r gofal gorau i'r cleifion.

Roedd rheolwr y practis yn goruchwyllo hyfforddiant a sesiynau goruchwyllo a gwelsom fod cofnodion hyfforddiant ac arfarnu wedi'u cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau'n effeithiol a'u bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd y gweithgareddau gwella ansawdd yn gynhwysfawr a gwnaethant helpu i gymell gwelliant parhaus drwy'r gwasanaeth. Roedd gan y practis gydberthynas â gwasanaethau gofal iechyd lleol eraill.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y system a oedd ar waith i gasglu adborth gan gleifion ac i ymateb i'r adborth hwnnw yn gadarn

- Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â chwynion a Dyletswydd Gonestrwydd y GIG
- Gwelsom fod cydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion hyfforddiant gorfodol a bod cofnodion o rwymedigaethau proffesiynol y staff yn gyflawn hefyd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis hwn yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Ers dod i Crescent Dental, rwyf wedi cael triniaeth llawer gwell na'r hyn a gefais yn fy mhractis blaenorol ac mae iechyd fy ngheg wedi gwella'n fawr iawn."

"Dim ond profiadau da iawn rwyf wedi eu cael yn y practis deintyddol. Maen nhw bob amser yn barod i helpu ac mae'r practis yn lle hapus."

"Mae'r menywod wrth y dderbynfya bob amser yn gwenu ac yn barod i helpu, ac mae'r deintyddion yn rhoi tawelwch meddwl i mi."

"Bob amser yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth a chyngor ar gael i'r cleifion mewn perthynas â chynnal iechyd y geg da, rhoi'r gorau i smygu a gofal deintyddol pediatriig. Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis yn gyfredol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat wedi'u harddangos yn glir ochr yn ochr ag enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC). Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld yn glir y tu allan i'r practis.

Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da (12/13). Nododd pob un o'r ymatebwyr ond un bod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd (12/13) i

holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Ar y cyfan, roedd yr adborth ysgrifenedig a gawsom yn llawn clod i'r staff a'r ffordd roeddent yn trin cleifion.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn a bod y dderbynfa a'r ardaloedd aros ar wahân, a oedd yn golygu na allai neb glywed gwybodaeth am gleifion. Roedd gwydr barugog ar ddrysau'r deintyddfeydd yn y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Roedd haen breifatrwydd ar ffenestri'r practis a oedd yn atal y cleifion rhag cael eu gweld wrth gael eu trin. Roedd y mesurau hyn yn cynnal preifatrwydd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd polisi cyfrinachedd cleifion ar waith ac roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael (10/12), costau triniaethau (10/11) a gwybodaeth am y risgiau a'r manteision (9/11). Roedd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y cleifion yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (7/9) eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion (7/10) hefyd yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y broses rheoli apwyntiadau a oedd ar waith yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Dywedodd y staff wrthym mai anaml yr oedd apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr ond pe bai apwyntiad yn para'n hirach na'r amser a neilltuwyd, y byddai'r clinigwyr y rhoi gwybod i'r dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi i apwyntiadau mewn modd amserol ac yn cael cynnig apwyntiad arall, pe baent yn gofyn am hynny.

Gwelsom fod system brysbennu cleifion dros y ffôn briodol ar waith i sicrhau bod y rheini yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf yn cael eu blaenoriaethu. Gwelsom

fod amser yn cael ei neilltuo yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Cadarnhaodd y staff fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth 111 y GIG i drin apwyntiadau brys y GIG yn ardal y bwrdd iechyd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC (10/13) y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na phedair wythnos i gael ei weld fel arfer. Roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu yn unol ag argaeledd y claf lle bynnag y bo'n bosibl a byddai blaenoriaeth yn cael ei roi i sicrhau bod plant yn cael apwyntiadau ar amser a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion addysgol. Nododd y rhai a ymatebodd i arolwg cleifion AGIC eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' (12/13) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Nododd un claf nad oedd wedi ei chael hi'n hawdd iawn cael apwyntiad.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Defnyddiwyd Language Line i gyfathrebu â chleifion pan oedd angen. Roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol, gyda gwybodaeth fwy arbenigol yn cael ei darparu ar gais gan gleifion. Fodd bynnag, yn y sampl o gofnodion naw claf y gwnaethom edrych arnynt, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg â chleifion. Roedd un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, ac roedd arwyddion yn cynghori'r cleifion i hysbysu'r staff am eu dewis iaith. Roedd rhywfaint o ddogfennaeth y practis ar gael yn Gymraeg, fel y datganiad o ddiben a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth a oedd i'w gweld neu a oedd ar gael ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gyfyngedig.

Dylai'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith yn llawn.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd polisiâu addas ar waith yn y practis i hyrwyddo hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd polisi dim goddefgarwch i aflonyddu a pholisi disgwyliadau o gleifion ar waith i ddiogelu'r staff rhag ymddygiad ymosodol.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer cleifion a chyflogeion. Roedd hyn yn cynnwys nyrs yn cael ei chefnogi i ymgymryd â rôl amgen i fodloni ei gofynion penodol.

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion. Roedd nodiadau naid yn cael eu hychwanegu at gofnodion cleifion i atgoffa'r staff os oeddent wedi eu newid eu henw.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad i'w weld mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, gan alluogi'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd yr eitemau o gyfarpar deintyddol a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt ar gael fel bod modd eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo angen. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod yr amgylchedd yn briodol i helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Dywedodd pawb a ymatebodd hefyd fod ganddynt y cyfleusterau priodol i gyflawni eu rolau.

Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gyda phump deintyddfa o faint priodol. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys nifer rhesymol o seddau ar gyfer y cleifion a oedd yn ymweld â'r lleoliad. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Fodd bynnag, nid oedd y toiled yn addas i'r cleifion hynny ag anawsterau symudedd o ganlyniad i ofynion mynediad yr adeilad. Rhoddwyd gwybod i'r cleifion am doiled arall addas a oedd ar gael gerllaw.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg boddhaol wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch, a gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am ganggymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cadarn ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ochr yn ochr ag arddangos arwyddion allanfa dân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w gweld yn yr ardaloedd staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Cadarnhaodd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y sefydliad yn gweithredu polisi atal a rheoli heintiau effeithiol. Dywedodd y staff fod amgylchedd y practis yn golygu bod modd

atal a rheoli heintiau a dihalogi, a bod amserlenni glanhau ar waith i hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis.

Er bod y cyfarpar yn y practis yn cael ei gadw mewn cyflwr da ar y cyfan, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella yn un o'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod. Roedd paent yn plicio oddi ar fetel y fraich a oedd yn cysylltu'r peiriant pelydr-X â'r wal yn y ddeintyddfa. Yn yr un ddeintyddfa, roedd y lledr ar y gadair lle roedd y cleifion yn cael eu trin wedi cracio ger y rhan sy'n cynnal y pen. Roedd y materion hyn yn golygu nad oedd modd dihalogi dau ddarn o gyfarpar yn effeithiol yn yr ardaloedd lle roedd difrod. Ymatebodd y practis yn gadarn drwy atgyweirio'r paent ar y fraich y noson honno a phrynu gorchudd ar gyfer y rhan o'r gadair lle roedd lledr wedi cracio, a gyrhaeddodd yn gyflym. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r ddeintyddfa hon yn cael ei hadnewyddu'n fuan, ac ni welsom unrhyw feysydd eraill a oedd yn peri pryder yn y practis.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' (12/13) neu'n 'eithaf glân' (1/13). Cadarnhaodd pob un o'r cleifion hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu cymryd gan staff naill ai drwy'r amser (12/13) neu weithiau / yn rhannol (1/13). Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae gweld y staff mewn dillad meddygol a bob amser yn glanhau yn gwneud i chi deimlo'n hyderus.”

“Nid wyf wedi sylwi ar neb yn golchi eu dwylo ond maen nhw'n gwisgo menig.”

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd yr holl weithdrefnau ac arwyddion mewn perthynas â hylendid dwylo yn addas. Gwelsom fod gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff drwy'r bwrdd iechyd a bod asesiadau risg priodol ar waith i fonitro'r risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt. Hefyd, dywedodd yr ymatebwyr fod Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gael iddynt. Roedd y trefniadau hyn yn golygu bod modd darparu gofal diogel i'r cleifion gan sicrhau diogelwch y staff ar yr un pryd.

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n briodol yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwelsom gofnodion priodol a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith. Roedd cyfarpar yn cael ei lanhau â llaw o dan chwyddwydr, ac roedd pob darn o gyfarpar yn cael ei sterileiddio mewn awtoclaf. Gwelsom fod cylchredau'r peiriant

awtoclaf yn cael eu gwirio ddwywaith y dydd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant boddhaol ar ddihalogi cyfarpar yn gywir.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gcontract gwaredu gwastraff priodol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gadarn. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir, ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n briodol.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau boddhaol ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod nifer addas o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys.

Roedd y silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu'n briodol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion, yr oedd pob un ohonynt yn cael eu cadw mewn un ffolder diogelu lle roedd modd cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd y gweithdrefnau yn ystyried Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol ac yn nodi arweinydd diogelu a enwir ar gyfer y practis. Roedd diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu rhannu drwy'r bwrdd iechyd a thrwy aelodaeth arbenigol y practis o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben, a oedd yn caniatáu ar gyfer darparu gofal diogel i gleifion. Roedd cyfarpar deintyddol amlbro yn cael ei ddefnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar a dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur staff fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system cyfarpar.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Nododd y staff fod y cleifion yn cael eu hysbysu'n briodol am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Gwelsom fod y rheolau lleol ar gael i'r staff eu gweld. Roedd protocolau ysgrifenedig hefyd ar waith ar gyfer pob math o archwiliad pelydr-X safonol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain ar gael yn hawdd i'r staff wrth ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau ysgrifenedig ar gyfer cynnal archwiliadau pelydr-X safonol ar gael yn hawdd i'r staff yn y deintyddfeydd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion y cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau yn y practis ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau ac yn cydsynio iddynt.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o naw claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal yr oedd y cleifion yn ei gael, gan gynnwys cofnod addas o archwiliadau sgrinio am ganser, archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg, siartiau sylfaenol llawn ac archwiliadau meinweoedd meddal. Fodd bynnag, ni welsom fod y cleifion yn darparu ffurflen

hanes meddygol wedi'i llofnodi ym mhob apwyntiad, a oedd wedyn yn cael ei chydlofnodi gan y deintydd. Diben ffurflenni hanes meddygol wedi'u llofnodi yw sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau i gyflyrau meddygol claf yn effeithio ar eu gofal. Y diwrnod ar ôl yr arolygiad, rhoddodd y practis system newydd ar waith ar ei ddyfeisiau ar gyfer cleifion i gasglu cofnodion meddygol wedi'u llofnodi.

Gwelsom fod system ddigidol addas ar waith i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn modd amserol i fynd ar drywydd atgyfeiriadau ar gyfer achosion posibl o ganser.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn mynd drwy lwybrau trin mewnol yn effeithlon ac ymdriniwyd yn effeithlon â nhw wrth eu hatgyfeirio. Gwelsom fod apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan dîm â chymysgedd effeithiol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion i holiadur staff AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob aelod o'r staff y byddai'n argymhell y lleoliad fel lle da i weithio ynddo ac y byddai'n hapus â safon y gofal a ddarperir pe bai angen gofal deintyddol ar ei ffrindiau neu berthnasau yn y practis.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas am ddiogelwch tân, gweithdrefnau brysbennu ac adborth gan gleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd system addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Byddai rheolwr y practis yn rhannu hysbysiadau diogelwch â'r staff a byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu brysbennu.

Roedd holl bolisiau'r practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac roedd unrhyw newidiadau iddynt yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd amserol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i holiadur staff AGIC wrthym fod y practis yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a bod eu patrwm gweithio presennol yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Dywedodd y staff hefyd fod maint y tîm yn briodol i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis.

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Roedd trefniadau cynhwysfawr a chefnogol hefyd ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o'r staff, ac roedd y staff yn cael amser â thâl i ymgymryd â hyfforddiant. Dywedodd pob aelod

o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Gwnaethom edrych ar 6 o'r 18 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o arferion da, gydag aelodau unigol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol perthnasol uwchlaw'r disgwyliadau gorfodol. Roedd system addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Roedd adborth y staff yn adlewyrchu hyn a dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu rolau.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am bryderon, ac y byddai'r staff yn eu trin yn deg pe baent yn gwneud hynny.

Roedd trefniadau ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom wedi'u cwblhau'n llawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dogfennaeth sgrinio iechyd. Gwelsom fod gwiriadau geirda cyn cyflogi yn cael eu storio ar ffeil neu fod asesiadau risg priodol wedi'u cynnal lle nad oedd gwiriadau ar gael. Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer sefydlu aelodau newydd o staff drwy bolisi recriwtio priodol a rhestr wirio sefydlu fanwl. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff a oedd wedi bod yn ei swydd ers dros flwyddyn yn cael arfarniad blynyddol, a dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur staff wrthym eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom fod ffurflenni adborth ar gael wrth y dderbynfa ac yn yr ardal aros. Roedd cleifion hefyd yn cael eu hannog i gwblhau ffurflenni adborth ar-lein, ac roedd ffurflenni adborth yn cael eu hanfon at unrhyw gleifion newydd i'w cwblhau. Roedd rheolwr y practis yn adolygu adborth yn rheolaidd ac yn ei drafod yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Un enghraifft ddiweddar o ymateb i adborth gan gleifion oedd tacluso'r tu allan i'r practis ar ôl i glaf ddweud ei fod wedi dechrau edrych yn anniben.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd gwybodaeth amdano ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y

weithdrefn gwynion i gleifion yn cynnig pwynt cyswllt wrth wneud cwyn. Roedd unrhyw gwynion llafar yn cael eu cofnodi mewn llyfryn yn y dderbynfa a'u rhannu â'r pwynt cyswllt ar gyfer cwynion mewn modd amserol. Roedd y broses ar gyfer uwchgyfeirio cwyn wedi'i hamlinellu yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â chwynion a Dyletswydd Gonestrwydd y GIG. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion diweddar na digwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn gadarn. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn ymwybodol o'u rôl fel rhan o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall, a bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod i gleifion pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol a chynhwysfawr o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis yn aelod 'Arbenigol' o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ac roedd wedi cwblhau gweithgarwch gwella ansawdd arferol drwy'r aelodaeth hon er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau parhaus. Roedd y mesurau hyn yn galluogi'r practis i rannu gwersi a ddysgwyd ac yn ei helpu i wella'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dull system gyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da â'u bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Crescent

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Crescent

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn y sampl o gofnodion naw claf y gwnaethom edrych arnynt, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.	Rheoliad 13 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae negeseuon atgoffa awtomatig wedi'u sefydlu fel bod nodyn yn ymddangos bob tro y caiff ffeil claf ei hagar er mwyn atgoffa'r aelod o staff i ofyn am ddewisiadau iaith y claf a'i gofnodi yn ei nodiadau.	Isobel Mcarthur Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
2. Roedd rhywfaint o ddogfennaeth y practis ar gael yn Gymraeg, fel y datganiad o	Dylai'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar	Rheoliad 13 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol/Negeseuon atgoffa am newidiadau	Isobel Mcarthur	Cwblhawyd gan y practis ond bydd yn

	ddiben a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth a oedd i'w gweld neu a oedd ar gael ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gyfyngedig.	gyfer y Gymraeg ar waith yn llawn.		i feddyginiaeth ar gyfer cleifion/Gweithdrefn Gweithio i Wella (Fersiynau syml a safonol) eisoes wedi'u harddangos yn yr ardaloedd i gleifion. Mae'r holl arwyddion brys eisoes yn Gymraeg/Saesneg. Mae'r arwyddion dim smygu eisoes yn Gymraeg/Saesneg hefyd. Rydym wedi cysylltu â'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â hyn ac wedi cael y pecyn ar gyfer darparu'r Cynnig Rhagweithiol.	Rheolwr y Practis	parhau wrth i wybodaeth newydd ddod i law
3.	Gwelsom fod y rheolau lleol ar gael i'r staff eu gweld. Roedd protocolau	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau ysgrifenedig ar gyfer cynnal archwiliadau pelydr-X	Rheoliad 6, Rheoliadau Ymbelydredd	Mae protocolau ysgrifenedig ar gyfer archwiliadau pelydr-X bellach ar gael ym	Jennifer Berndt	Wedi'i gwblhau.

ysgrifenedig hefyd ar waith ar gyfer pob math o archwiliad pelydr-X safonol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain ar gael yn hawdd i'r staff wrth ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X.	safonol ar gael yn hawdd i'r staff yn y deintyddfeydd.	lioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	mhob ystafell, ger y cyfarpar pelydr-X. Mae'r rhain yn benodol i'r practis a'r cyfarpar ac mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant.		
--	--	---------------------------------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Isobel Mcarthur

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 11.08.2025